



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad

Llun

Nodiadau

Geni Iesu



- 1 Dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl anfonodd Duw yr angel Gabriel i Nasareth. Aeth yno gyda neges i ferch ifanc o'r enw Mair. Dwedodd wrthi, "Rwy'ti'n mynd i fod yn feichiog, a byddi di'n cael mab. Iesu ydy'r enw rwy'ti'n roi iddo. Bydd yn ddydd pwysig iawn, a bydd yn cael ei alw'n Fab y Duw Goruchaf." Roedd Mair yn gyffrous iawn. Dwedodd wrth Gabriel, "...gad i beth rwy'ti wedi'i ddweud ddod yn wir."



- 2 Roedd Mair wedi addo priodi Joseff. Ond cyn iddyn nhw briodi dyma'r Ysbryd Glân yn gwneud Mair yn feichiog. Doedd Joseff ddim yn deall, ac roedd o'n drist. Roedd Joseff yn ddydd da a charedig. Doedd e ddim eisiau codi cywilydd ar Mair, ac felly roedd yn ystyried yn dawel fach i ganslo'r briodas.



-
- 3 Ond cafodd Joseff freuddwyd arbennig: gwelodd angel Duw yn dod ato a dweud wrtho, "Joseff fab Dafydd, paid petruso mynd â Mair adre i fod yn wraig i ti, am mai'r Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi. Bachgen fydd hi'n ei gael. Rwy't i roi'r enw Iesu iddo, am mai fe fydd yn achub ei bobl o'u pechodau."



-
- 4 Pan ddeffrodd Joseff, gwnaeth beth roedd angel Duw wedi'i ddweud wrtho sef priodi Mair.



-
- 5 Tua'r un adeg dyma Cesar Awgustws yn gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd. (Roedd o eisiau cyfri'r bobl i gyd i weld faint o arian/trethi oedd yn bosib iddo gasglu!). Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad. Teithiodd Joseff a Mair i Fethlehem.



-
- 6 Roedd y daith yn un flinedig - yn enwedig i Mair, a oedd yn disgwyl babi.



-
- 7 Erbyn iddyn nhw gyrraedd roedd y ddau wedi blino.



-
- 8 Ond O!.. ar ôl cyrraedd sylweddolon nhw fod Bethlehem yn brysur iawn, iawn.



-
- 9 Doedd gan neb le iddyn nhw aros. Roedd pob llety'n llawn.



-
- 10 Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni - bachgen bach. Dyma Mair yn lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid (preseb). Dyma pam rydyn ni'n meddwl fod Iesu wedi ei eni mewn stabl - am ei fod wedi treulio oriau cyntaf ei fywyd yn cysgu mewn preseb.



-
- 11 Yn ardal Bethlehem roedd bugeiliaid allan yn yr awyr agored yn gofalu am eu defaid. Yn sydyn dyma nhw'n gweld un o angylion yr Arglwydd, ac roedd ysblander yr Arglwydd fel golau llachar o'u cwmpas nhw. Roedden nhw wedi dychryn am eu bywydau. Ond dwedodd yr angel wrthyn nhw i beidio bod ofn. Dwedodd wrthyn nhw, "Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem. Ie, y Meseia! Yr Arglwydd!" Yn sydyn dyma filoedd o angylion eraill yn dod i'r golwg, roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli Duw!



-
- 12 Pan aeth yr angylion i ffwrdd yn ôl i'r nefoedd, dyma'r bugeiliaid yn dweud wrth ei gilydd, "Dewch! Gadewch i ni fynd i Bethlehem, i weld beth mae'r Arglwydd wedi'i ddweud wrthon ni sydd wedi digwydd." Ar ôl ei weld, dyma'r bugeiliaid yn mynd ati i ddweud wrth bawb beth oedd wedi digwydd, a beth ddwedodd yr angel wrthyn nhw am y plentyn yma. Roedd pawb glywodd am y peth yn rhyfeddu at yr hyn roedd y bugeiliaid yn ei ddweud.



-
- 13 Ym mhell iawn o Fethlehem roedd yna wŷr doeth o wledydd y dwyrain yn astudio'r sêr. Fe deithion nhw i Jerwsalem a gofyn, "Ble mae'r un sydd newydd gael ei eni yn frenin yr Iddewon? Gwelon ni ei seren yn codi yn y dwyrain, a dŷn ni yma i dalu teyrnged iddo."



14 Dyma'r seren yn mynd o'u blaen, nes iddi aros uwchben yr union fan lle roedd y plentyn. Roedden nhw wrth eu bodd! Pan aethon nhw i mewn i'r tŷ, dyna lle roedd y plentyn gyda'i fam, Mair, a dyma nhw'n disgyn ar eu gliniau o'i flaen a'i addoli. Yna dyma nhw'n agor eu paciau a rhoi anrhegion gwerthfawr iddo - aur a thus a myrr.



15 "Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni. Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch." Eiseia 9:6



16 Cyfieithiad beibl.net



CONTRIBUTED BY
Sue Bentley

© Sue Bentley 2015.
These images are made available for free download under the terms of a
Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 Unported license.

www.freebibleimages.org